Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Llys
# Rhodfa'r Tywysog
# Prestatyn
# LL19 8RW

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Y Llys

Ysgol Gynradd ddynodedig Gymraeg yw Ysgol y Llys. Lleolir yr ysgol ym Mhrestatyn yn awdurdod lleol Dinbych. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 387 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 55 oed meithrin. Mae 15 dosbarth oed cymysg yn yr ysgol gan gynnwys dau ddosbarth ar gyfer plant meithrin.

Tros y tair blynedd ddiwethaf, mae tua 5% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol sy'n 18%. Mae tua 5% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 21% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n debyg i'r canran cenedlaethol.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Hydref 2007. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae staff yn creu ethos hapus, gofalgar a chynhwysol yn yr ysgol, sy'n meithrin awyrgylch dysgu cefnogol a gweithgar i'r disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol, maent yn ymddwyn yn dda ac maent yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr ac yn arddangos balchder yn eu hysgol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda.

Mae gan yr athrawon berthynas waith hynod effeithiol gyda'r disgyblion ac maent yn darparu profiadau dysgu cyfoethog a diddorol iddynt, sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf ohonynt. Mae ethos Cymreig cryf iawn yn bodoli yn yr ysgol, gyda'r ddarpariaeth yn annog y disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o'i gwaith a'i bywyd. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymfalchïo yn eu dwyieithrwydd, eu diwylliant a'u treftadaeth Gymreig.

Mae'r pennaeth a'r tîm rheoli yn darparu arweinyddiaeth effeithiol sy'n rhoi cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae'r holl staff yn ymroddedig a brwdfrydig ac yn cydweithio'n agos ac yn effeithiol fel tîm. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Darparu mwy o gyfleoedd cyson i ddisgyblion y cyfnod sylfaen wneud dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu ac i weithredu'n fwy annibynnol

A2 Sicrhau cyfleoedd cyson a phriodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda.

Er bod y Gymraeg yn iaith newydd i bron bob un o'r disgyblion ar fynediad i'r ysgol, mae medrau llafar y rhan fwyaf yn datblygu'n gadarn ac yn fuan iawn yn y dosbarth meithrin a derbyn. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwrando'n astud ac yn cyfathrebu'n gynyddol hyderus yn Gymraeg. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn eu gweithgareddau ac ar adegau eraill yn ystod y dydd. Maent yn awyddus i siarad am eu gwaith a'u profiadau, er enghraifft wrth drafod cymeriadau o stori Rala Rwdins. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y sylfaen gadarn hon. Maent yn cyfathrebu'n glir yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn cyfrannu'n bwrpasol yn y ddwy iaith mewn trafodaethau dosbarth. Ar frig yr ysgol, maent yn trafod eu gwaith yn ddeallus gydag aeddfedrwydd, gan ddefnyddio geirfa ymestynnol a chyfoethog i greu effaith, er enghraifft wrth drafod profiadau pobl adnabyddus o gefndir tramor wrth iddynt dyfu i fyny yng Nghymru.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau darllen ac yn gwneud cynnydd da yn gyson. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a seiniau'n gywir ac yn dechrau adnabod geiriau'n hyderus. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn ystyrlon a chyda mynegiant ac yn trafod cynnwys eu llyfrau yn aeddfed. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn ddeallus yn y ddwy iaith. Maent yn ymarfer eu medrau darllen uwch yn gyson ac aeddfed i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau. Enghraifft dda o hyn yw gwaith y disgyblion hŷn wrth ddysgu am fywyd enwogion o'r chwedegau fel Rosa Parks ac Andy Warhol.

Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, maent yn ymestyn eu syniadau'n effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu am fywyd plant yn oes Fictoria. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus ac, erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn drafftio ac ailddrafftio eu gwaith yn effeithiol ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi yn y ddwy iaith. Mae'r rhan fwyaf yn addasu arddull a strwythur i wahanol destunau yn fedrus, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr ffurfiol at y corff llywodraethol am eu hymdrechion i ailgylchu a lleihau gwastraff neu wrth ysgrifennu dyddiadur am fywyd plentyn yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Erbyn Blwyddyn 2, mae ganddynt afael gadarn ar ffeithiau rhif a mesur ac maent yn trin arian yn gywir, er enghraifft wrth chwarae rôl yn swyddfa bost y dosbarth. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y sylfaen gadarn hon. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i ddatrys problemau, er enghraifft wrth brisio pryd o fwyd i deulu. Maent yn gwneud defnydd priodol o'u medrau trin data wrth gymharu hoff bitsa disgyblion y dosbarth. Er hyn, nid ydynt bob amser yn defnyddio'u medrau rhifedd ar yr un lefel mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm ag y maent mewn gwersi mathemateg.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd pwrpasol o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob disgybl yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio llechi electronig yn effeithiol. Mae disgyblion Blwyddyn 2, er enghraifft, yn cofnodi eu gwaith ar adeiladu lloches yn yr ardal allanol yn electronig. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio cronfa ddata syml i gofnodi hoff ffrwyth aelodau'r dosbarth, er enghraifft. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r rhyngrwyd yn effeithiol i chwilio am wybodaeth ac yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus i gyflwyno'u canfyddiadau, ar effaith gwastraff plastig ar yr amgylchfyd, er enghraifft. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o sut i drin data i'w galluogi i ddilyn trywyddau ymholi penodol ar draws y cwricwlwm.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac yn ymfalchïo ynddi. Maent yn teimlo'n gwbl ddiogel yno a gwyddant at bwy i droi am gyngor petai rywbeth yn eu poeni. Maent yn hyderus bod yr ysgol yn ymateb i unrhyw bryder sydd ganddynt yn brydlon. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn gyson dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch a chwrteisi. Mae hyn yn nodwedd gref o'r ysgol. Maent yn dangos balchder tuag at y Gymraeg ac yn dewis defnyddio'r iaith i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi. Maent yn siarad yn hyderus am eu hysgol a'u cymuned ac yn ymfalchïo yn eu dwyieithrwydd, eu diwylliant a'u treftadaeth Gymreig.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymagweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu ac yn datblygu'n ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig. Maent yn cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddygn ar dasg dros gyfnodau estynedig. Maent yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau ac yn gweithio'n gyson dda fel unigolion, parau ac mewn grwpiau bychain. Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar beth maent yn dymuno ei ddysgu o fewn thema'r tymor. Mae hyn yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn dangos lefelau da o gymhelliant a diddordeb yn eu gwaith. O oed cynnar, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd a gânt i werthuso'r hyn maent yn dysgu. O ganlyniad, erbyn Blwyddyn 6, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymwybodol o'u targedau personol a'r hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith.

Mae'r disgyblion sydd ar yr amrywiol bwyllgorau a grwpiau sy'n ymwneud â'u gwaith yn frwdfrydig. Trwy hyn, maent yn cyfrannu'n effeithiol at fywyd a gwaith yr ysgol ac yn datblygu eu medrau arwain yn effeithiol. Er enghraifft, trwy waith yr arweinwyr digidol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall yn glir sut i gadw'n ddiogel ar y we. Trwy waith y cyngor eco yn hybu ailgylchu, arbed ynni a lleihau'r defnydd o blastig yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd cynaliadwyedd a gofalu am eu byd. Mae dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion o werthoedd moesol a chydraddoldeb yn datblygu'n dda. Maent yn ymdrin â thestunau fel hiliaeth mewn modd sensitif ac aeddfed ac yn mynegi barn yn glir gan ddangos parch at gyfraniadau a safbwyntiau disgyblion eraill. O ganlyniad, maent yn datblygu'n ddinasyddion gwybodus a goddefgar sy'n trafod pynciau cyfoes a chyfredol yn synhwyrol a thrwyadl.

Mae gan bron pob un disgybl ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac maent yn deall effaith ymarfer corff ar eu hiechyd. Maent yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn gwersi addysg gorfforol yn ogystal â chlybiau chwaraeon allgyrsiol.

Yn ddiweddar, mae'r disgyblion wedi dechrau cymryd rhan mewn cynllun ffitrwydd newydd 'Milltir y Dydd' sy'n hybu eu datblygiad corfforol yn effeithiol.

Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol, ac mae'r berthynas dda sy'n bodoli rhwng oedolion a disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae awyrgylch ddysgu gadarnhaol a chefnogol ym mron pob dosbarth lle mae athrawon yn cymell a rheoli ymddygiad disgyblion yn llwyddiannus. Mae hyn yn arwain at gydweithio effeithiol a datblygu brwdfrydedd y disgyblion tuag at ddysgu. Mae ethos Cymreig cryf iawn yn bodoli a'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar coeth. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Mae pwyslais clir ar ddatblygu cwricwlwm sy'n seiliedig ar Gymru a'r etifeddiaeth Gymreig. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol, eu hanes a'u diwylliant.

Mae athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gyfoes dda ac maent yn defnyddio'r wybodaeth honno'n gelfydd wrth gynllunio gwersi diddorol a phrofiadau dysgu cyfoethog i'w disgyblion. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu effeithiol, ac yn cysylltu eu gwersi'n fedrus â dysgu blaenorol. Maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir i'w disgyblion, ac yn darparu tasgau sydd wedi eu teilwra'n briodol ar gyfer yr ystod gallu o fewn y dosbarthiadau. Mae hyn yn cymell disgyblion i ddysgu ac yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at sicrhau bod rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda. Yn yr ychydig ddosbarthiadau lle mae'r addysgu ar ei orau, mae cyflwyniadau dychmygus ynghyd â chyflymder y gwersi yn nodweddion cryf o'r addysgu. Yn y dosbarthiadau hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn ac maent yn defnyddio holi penagored yn llwyddiannus i annog eu disgyblion i feddwl drostynt eu hunain. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus i fentro ac i ymgymryd â'r tasgau'n frwdfrydig ac yn annibynnol.

Mae athrawon yn darparu ystod amrywiol o brofiadau dysgu gwerthfawr i'w disgyblion, sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf ohonynt yn llwyddiannus. Mae themâu trawsgwricwlaidd a rhaglenni gwaith diddorol yn ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda ac yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith yn effeithiol. Mae athrawon y cyfnod sylfaen yn darparu ystod o brofiadau dysgu gwerthfawr i'w disgyblion, sy'n cynnwys cyfleoedd effeithiol iddynt ddatblygu ac ymarfer eu medrau trwy ymchwilio a chwarae rôl. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu, yn enwedig yn yr ardaloedd allanol. Mae tueddiad i oedolion arwain gormod ar y gweithgareddau, sy'n cyfyngu ar allu'r disgyblion i weithio'n annibynnol. Ar y llaw arall, wrth addasu'r cwricwlwm i fodloni dibenion y cwricwlwm newydd i Gymru, mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn cynnig cyfleoedd cynyddol a gwerthfawr i ddisgyblion wneud penderfyniadau pwysig mewn perthynas â'u gwaith. Mae'r profiadau dysgu yn galluogi disgyblion i ddatblygu rhan fwyaf o'u medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn llwyddiannus yn drawsgwricwlaidd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agwedd disgyblion tuag at eu dysgu.

Mae athrawon yn y ddau gyfnod allweddol yn cynllunio'n fwriadus i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae'r cynllunio yn drefnus ac yn helpu athrawon i greu tasgau diddorol sy'n adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol y disgyblion, er enghraifft mewn gwersi iaith a mathemateg. Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd cynhwysfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg a Saesneg ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trosglwyddo a chymhwyso'r medrau hyn yn hyderus. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd i'r un graddau ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh ac i gymhwyso'r medrau hyn yn rheolaidd ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn ymyrryd yn sensitif ac yn cynnig adborth defnyddiol i ddisgyblion ar eu hymdrechion yn ystod y gwersi. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i ganolbwyntio, yn eu hannog i fyfyrio ar eu hymdrechion ac i wirio eu cynnydd yn erbyn yr amcanion gwersi a'r meini prawf llwyddiant. Anogir disgyblion i fanteisio ar gyfleoedd cyson i werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Er bod athrawon hefyd yn darparu adborth ysgrifenedig pwrpasol i ddisgyblion, anghyson yw'r cyfleoedd a roddir iddynt ymateb i'r sylwadau yn rheolaidd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a theuluol sy'n hyrwyddo ymddygiad da, cwrteisi a pharch yn hynod effeithiol. Mae'r berthynas waith gynhaliol a chyfeillgar sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn nodwedd arbennig o'r ysgol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymddygiad da a chwrteisi bron pob un o'r disgyblion a'u hymagwedd gadarnhaol at ddysgu ac at eu hysgol.

Mae'r pwyslais ar hybu'r Gymraeg a Chymreictod yn gryfder ac yn ennyn balchder y disgyblion yn eu diwylliant, eu hetifeddiaeth a'u dwyieithrwydd. O ganlyniad, Cymraeg yw'r iaith mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dewis ei siarad, o fewn a thu allan i'w dosbarthiadau. Darperir nifer fawr o ddigwyddiadau ac ymweliadau cyfoethog i'r disgyblion, sy'n hybu eu dealltwriaeth o'u diwylliant a'u cymuned yn llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol a mynegiannol disgyblion yn effeithiol. Mae'r gweithdy tecstilau a gynhaliwyd yn ddiweddar, pan greoedd disgyblion cyfnod allweddol 2 faneri lliwgar er mwyn eu cario fel rhan o orymdaith i ddathlu Gŵyl Dewi, yn enghraifft dda o hyn. Mae disgyblion yn aml yn arddangos eu gwaith celf yn lleol, er enghraifft mewn arddangosfa i ddathlu canmlwyddiant Kyffin Williams. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd hyn a hefyd yn y cyfleoedd a gânt i gystadlu mewn eisteddfodau a pherfformio mewn cyngherddau lleol. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at fagu hunanhyder llawer o'r disgyblion a'u gallu i gydweithio'n effeithiol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn sicrhau bod hawliau plant yn derbyn sylw priodol ac maent yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion ar frig yr ysgol yn astudio hanes Rosa Parks ac yn ymchwilio i fywydau pobl enwog o Gymru sydd o dras tramor. Mae hyn yn arwain at ddealltwriaeth dda disgyblion o degwch a hawliau dynol.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer olrhain a monitro cynnydd disgyblion yn gadarn. Mae'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r gweithdrefnau hyn yn

llwyddiannus i ymateb i anghenion unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae staff yn adnabod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn gynnar ac yn darparu ar eu cyfer yn effeithiol. Mae athrawon yn defnyddio ystod eang o ymyraethau i ehangu'r ddarpariaeth ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys defnyddio asiantaethau allanol i sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm. Mae athrawon yn creu cynlluniau addysg unigol manwl i bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r rhain yn cynnwys barn y disgybl ac, o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n derbyn ymyrraeth yn ymwybodol o'u targedau ac yn gwneud cynnydd cadarn. Mae trefniadau ar gyfer ymateb i anghenion emosiynol disgyblion yn llwyddiannus ac yn cael effaith gadarnhaol arnynt. Mae'r athrawon yn trefnu cymorth bwriadus ar gyfer disgyblion i drafod eu teimladau ar adegau anodd yn eu bywyd, ac i godi eu hunanhyder a'u galluogi i ddyfalbarhau a goresgyn unrhyw anawsterau a brofant yn eu dysgu.

Mae'r ysgol yn sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni. Caiff y rhieni eu hysbysu'n rheolaidd drwy gylchlythyron a chyfryngau cymdeithasol am weithgareddau a digwyddiadau'r ysgol yn ogystal â themâu'r tymor. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd iddynt drafod cynnydd a thargedau datblygiad eu plant ac i atgyfnerthu'r hyn y gall rhieni ei wneud i gefnogi eu plant â'u gwaith. O ganlyniad, mae'r rhieni yn teimlo'n rhan o'r ysgol. Maent yn cefnogi'r ysgol ac yn cydweithio â'r staff yn effeithiol.

Mae staff yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion leisio'u barn ar y ddarpariaeth. Maent yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion drafod eu syniadau wrth ddechrau thema newydd ac i ddewis agweddau sydd o ddiddordeb iddynt. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gwerthfawrogi eu syniadau a'u barn. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau drwy ymuno â grwpiau dylanwadol fel y cyngor ysgol a fu'n trefnu noson ffilm yn ddiweddar er mwyn codi arian i brynu mainc mêts i'r buarth. Mae criw y siarter iaith yn frwdfrydig wrth hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ym mywyd dyddiol yr ysgol, er enghraifft wrth baratoi llyfryn i rieni a staff y gegin i'w cefnogi wrth siarad Cymraeg. Mae hyn yn datblygu medrau arwain y disgyblion yn effeithiol ac yn eu datblygu i fod yn ddinasyddion gweithgar a chydwybodol y dyfodol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, yn ogystal â chadw'n heini. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth disgyblion o faterion sy'n ymwneud â'u hiechyd a'u lles. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol ac yn hybu cymuned glòs a chynhwysol. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth eglur sy'n seiliedig ar sicrhau amrediad o brofiadau dysgu cyfoethog ar gyfer y disgyblion mewn awyrgylch hapus a chefnogol. Mae hybu'r Gymraeg a Chymreictod yn flaenoriaeth iddo ac mae'n ganolog i holl waith yr ysgol. Mae'r pennaeth yn gweithio'n llwyddiannus gydag aelodau'r uwch dîm rheoli, y disgyblion, y staff, y llywodraethwyr a'r rhieni i weithredu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus.

O dan arweiniad diymhongar y pennaeth, mae'r uwch dîm rheoli, sy'n cynnwys y dirprwy ac arweinwyr yr unedau, yn datblygu'n arweinwyr hyderus. Mae'r staff yn ymroddgar, yn cydweithio'n agos fel tîm, gan ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn gydwybodol ac effeithiol. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy trwy ddod at ei gilydd i drafod yn rheolaidd a chynllunio ar y cyd. Mae'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio'n gadarn ar safonau a blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae hyn yn rhoi ffocws clir i waith yr holl staff, ac yn cyfrannu'n dda at sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn gymorth llwyddiannus i leihau baich gwaith athrawon.

Mae arweinwyr yn cynllunio'n drwyadl i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae staff yn frwdfrydig wrth fynd i'r afael â datblygiadau diweddar ym maes addysg, er enghraifft wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd a chyflwyno'r fframwaith cymhwysedd digidol. Mae ymroddiad staff i gyflwyno strategaethau sy'n codi hyder a datblygu gwydnwch y disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at sicrhau eu bod yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith. Mae diwylliant ac ethos cryf o gefnogi dysgu proffesiynol staff yn bodoli yn yr ysgol. Mae cyfleoedd da i bob aelod o staff wella eu harfer a chodi safonau. Mae hyn, er enghraifft, wedi arwain at welliant yn nefnydd staff o arferion asesu ar gyfer dysgu ynghyd â medrau TGCh disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r weithdrefn hunanwerthuso yn greiddiol i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae wedi ei sefydlu'n gadarn ac mae'n canolbwyntio'n glir ar ddeilliannau disgyblion ac effaith y ddarpariaeth, yr addysgu a'r gofal. Mae gweithgareddau monitro rheolaidd yn rhan allweddol o weithdrefnau codi safonau parhaus yr ysgol. Maent yn seiliedig ar ystod dda o dystiolaeth uniongyrchol ynglŷn â chyflawniad disgyblion sy'n cynnwys arsylwi gwersi, craffu ar eu gwaith a chynnal teithiau dysgu. Mae'r holl athrawon yn rhan o'r weithdrefn fonitro. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen eu gwella. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i ganfod ac ymateb i farn disgyblion a rhieni, er enghraifft wrth hwyluso trefniadau mynd adref ar ddiwedd y dydd. Mae cyswllt clir rhwng canfyddiadau'r weithdrefn hunanwerthuso a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol, sy'n canolbwyntio'n glir ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau.

Trwy chwarae rhan flaenllaw yn ei gweithdrefnau monitro, hunanwerthuso a chynllunio strategol, mae gan aelodau'r corff llywodraethol wybodaeth drylwyr am berfformiad yr ysgol. Trwy ymweld â'r ysgol i graffu ar lyfrau, a thrafod effaith mentrau newydd gydag athrawon, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ddarpariaeth a'r meysydd i'w gwella. Mae hyn yn eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau'n effeithlon i gynnig ystod o brofiadau dysgu amrywiol a chyfoethog i'r disgyblion. Maent yn neilltuo cyllid yn briodol er mwyn bodloni'r blaenoriaethau gwella ac yn monitro gwariant yn ofalus. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o grantiau'n fwriadus gan gynnwys y grant datblygu disgyblion i gyfoethogi'r ddarpariaeth. Maent yn cynnig nifer o raglenni ymyrraeth effeithiol i godi safonau ac i hyrwyddo lles disgyblion sy'n gymwys i'w dderbyn. O ganlyniad, fe welir cynnydd amlwg ym medrau darllen ac yn awch a brwdfrydedd y disgyblion i ddysgu.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/05/2019